Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Joanne Sims
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 6DN

02/11/2026

Annwyl Joanne Sims

Ymweliad manylach gan arolygydd cyswllt yr awdurdod lleol (ACALl): Hydref 2026

Rhwng 20 a 22 Hydref 2026, cynhaliodd ACALl Hayley Smith AEF a thîm o AEF ymweliad manylach arolygydd cyswllt awdurdod lleol a ganolbwyntiodd ar ymagweddau'r awdurdod lleol at gefnogi plant a phobl ifanc fregus, gan gynnwys y rhai ag ADY neu sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol neu addysg ddewisol yn y cartref, a'r cynllunio strategol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod â chi a'r Cyd-Gyfarwyddwr Strategol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, ac arweinwyr gweithredol ac uwch arweinwyr eraill
- Cyfarfod â'r uwch arweinwyr sy'n arwain ar y ddau faes ffocws
- Cyfarfod ag ystod o swyddogion sy'n arwain ar agweddau ar y ddau faes ffocws
- Cyfarfod ag ystod o benaethiaid ac arweinwyr eraill o ysgolion a lleoliadau
- Ystyried ystod o ddogfennaeth a ddarparwyd gennych chi a'ch timau

Rydym yn gobeithio y bu'r ymweliad hwn yn fuddiol i chi a'ch tîm gwasanaethau addysg. Isod, ceir crynodeb o'n canfyddiadau.

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn hynod galonogol clywed am yr ymrwymiad cryf a ddangoswyd gennych chi, y Prif Swyddog Gweithredol ar y Cyd a'ch uwch arweinwyr corfforaethol i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n profi anfantais neu fregusrwydd. Roedd yn ddefnyddiol i ni drafod sut mae pum cenhadaeth gorfforaethol y Cyngor ac 'Y Fargen', y mae egwyddorion Marmot yn sail iddynt, yn darparu ffocws clir ar leihau anghydraddoldebau trwy ymyrraeth gynnar a chymorth targedig. Roedd hefyd yn gadarnhaol clywed am y modd y mae perchnogaeth gorfforaethol gryfach o addysg, ochr yn ochr â threfniadau arwain a chraffu ar y cyd â

Thorfaen, yn helpu gwella capasiti strategol, atebolrwydd a chyfrifoldeb ar y cyd am ddysgwyr bregus.

Maes ffocws 1

Ymagweddau'r awdurdod lleol at gefnogi plant a phobl ifanc fregus, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) neu addysg ddewisol yn y cartref (ADdC)

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed am y camau rydych wedi eu cymryd i gryfhau'r arweinyddiaeth strategol mewn darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynhwysiant. Mae arweinwyr wedi sefydlu dull cynyddol gydlynus, y mae'r strategaeth cynhwysiant, y polisi ADY a'r cynllun gwella addysg yn sail iddo. Mae hyn wedi helpu darparu cyfeiriad cliriach ar gyfer ysgolion a gwasanaethau ac yn cryfhau disgwyliadau ar y cyd ar gyfer nodi a diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Roedd yn glir o'n trafodaethau fod gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r heriau o fewn darpariaeth ADY, a'u bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau, a swyddogion arbenigol, i ddatblygu arfer fwy cynhwysol.

Roedd yn hynod gadarnhaol clywed am y flaenoriaeth rydych wedi'i rhoi i nodi'n gynnar ac ymyrraeth gynnar, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Disgrifiodd swyddogion lwybrau atgyfeirio ADY sefydledig a gwaith amlasiantaethol effeithiol sy'n helpu plant a theuluoedd i elwa ar gymorth priodol yn gynnar. Mae cwblhau prosesau statudol yn amserol, gan gynnwys hysbysiadau ADY y blynyddoedd cynnar ac adolygiadau cynlluniau datblygu unigol (CDU), yn nodwedd fuddiol o'r gwaith hwn.

Siaradodd arweinwyr ysgolion yn gadarnhaol am hygyrchedd ac arbenigedd swyddogion ADY, y gwasanaeth arfer gynhwysol a'r tîm seicoleg addysg. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth, y dysgu proffesiynol a'r arweiniad a ddarperir, gan gynnwys trwy fforymau Cydlynwyr ADY a chyfleoedd i rannu arfer effeithiol. Mae'r gwaith hwn yn helpu cryfhau hyder ymarferwyr a gwella ansawdd cynlluniau datblygu unigol (CDUau). Roedd hefyd yn galonogol clywed am y modd y mae gwybodaeth swyddogion am ysgolion a lleoliadau unigol yn eu galluogi i nodi ble mae angen cymorth ychwanegol, a chyfeirio arweinwyr at arfer effeithiol.

Roedd yn fuddiol i ni drafod sut rydych chi'n ymateb i gymhlethdod cynyddol anghenion disgyblion trwy ddatblygu darpariaeth ADY arbenigol. Mae ailffurfweddu'r canolfannau adnoddau dysgu a'r capasiti cynyddol yn Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm yn ddatblygiadau pwysig o ran cryfhau darpariaeth leol a lleihau dibyniaeth ar leoliadau'r tu allan i'r sir. Mae

arweinwyr hefyd wedi sefydlu panelau amlasiantaethol pwrpasol i gefnogi penderfyniadau am ddarpariaeth statudol, lleoliadau a throsglwyddiadau arbenigol.

Meysydd i'w hystyried:

- Sut bydd yr awdurdod lleol yn cryfhau ei werthuso ynghylch effaith ei strategaeth, ei bolisi a'i arfer ADY a chynhwysiant ar gysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc?
- Sut bydd arweinwyr yn parhau i ddatblygu capasiti digonol ac arfer a phontio cynhwysol mwy cyson ar draws ysgolion a lleoliadau?
- Sut bydd arweinwyr yn cefnogi recriwtio, cadw a datblygu staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion ADY cymhleth?

Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed am y gwaith rydych chi wedi'i wneud i ddatblygu ystod ehangach o lwybrau addysgol ar gyfer disgyblion sy'n profi rhwystrau sylweddol rhag cael addysg brif ffrwd. Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o ddulliau, gan gynnwys dysgu ar-lein, defnydd o ddarparwyr allanol ac ymyriadau addas, i ymateb i anghenion cynyddol gymhleth dysgwyr bregus. Mae'r trefniadau hyn yn helpu ychydig o ddisgyblion i ymgysylltu o'r newydd â dysgu, a dychwelyd yn llwyddiannus i addysg brif ffrwd mewn rhai achosion.

Roedd yn hynod ddiddorol clywed am gynllun peilot ymyrraeth y Gwasanaeth Ieuenctid, sy'n cyfuno profiadau dysgu buddiol â chysylltiadau parhaus ag ysgolion prif ffrwd disgyblion. Mae hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i ychydig o ddisgyblion targedig ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol wella'u lles, eu hyder a'u hymgysylltiad ag addysg. Buom hefyd yn trafod rôl y panel dysgwyr bregus o ran dod â phobl broffesiynol ynghyd i ystyried amgylchiadau disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu ymddieithrio. Mae hyn yn darparu strwythur defnyddiol ar gyfer nodi cymorth priodol a llwybrau addysgol addas.

Meysydd i'w hystyried:

- Sut bydd yr awdurdod lleol yn cryfhau cydlyniant, cynnig cwricwlwm a sicrhau ansawdd darpariaeth AHY i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael profiadau addysgol cyson briodol a pherthnasol?

- Sut bydd arweinwyr yn datblygu gwerthuso systematig ynghylch presenoldeb, cynnydd a deilliannau disgyblion AHY, ac yn sicrhau disgwyliadau cliriach ar gyfer cydweithio a chynllunio ailintegreiddio?

Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC)

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn gadarnhaol clywed am y camau rydych chi wedi eu cymryd i gryfhau goruchwylio plant a phobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Disgrifiodd swyddogion drefniadau monitro mwy systematig a gweithio mewn partneriaeth yn agosach, sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o brofiadau addysgol plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Mae trefniadau monitro buddiol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r awdurdod lleol am amgylchiadau'r rhan fwyaf o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Roedd yn ddiddorol clywed am y cydweithio cynhyrchiol rydych wedi'i ddatblygu gyda Thorfaen i gryfhau trefniadau monitro ac olrhain. Mae'r bartneriaeth hon yn helpu gwella rhannu gwybodaeth ac yn darparu goruchwyliaeth fwy cydlynus o blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref. Hefyd, disgrifiodd swyddogion berthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd a'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol. Mae'r achosion a adroddwyd am ddisgyblion yn dychwelyd i addysg brif ffrwd yn nodwedd galonogol o'r gwaith hwn.

Roedd yn fuddiol hefyd i ni drafod y trefniadau ar gyfer cefnogi plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref sydd ag ADY. Mae gan bob un o'r disgyblion a nodwyd CDUau a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac mae cydweithio rhwng swyddogion lles addysg ac ADY yn helpu sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol. Mae ymglymiad swyddogion arbenigol mewn ymweliadau cartref ac adolygiadau yn canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd yn cryfhau dealltwriaeth yr awdurdod o'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r plant a'r bobl ifanc hyn, ac yn cefnogi trafodaethau gwybodus gyda theuluoedd.

Maes i'w ystyried:

- Sut bydd yr awdurdod lleol yn adeiladu ar ei drefniadau datblygol ar gyfer monitro addysg ddewisol yn y cartref i ddeall yn llawnach y rhesymau mae teuluoedd yn dewis addysg yn y cartref, yn enwedig ar gyfer plant ag ADY, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gryfhau darpariaeth gynhwysol?

Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Maes ffocws 2

Cynllunio strategol yr awdurdod lleol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Yn ein trafodaethau, roedd yn amlwg fod yr awdurdod lleol yn cynnal ffocws strategol clir ar ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac ymgorffori blaenoriaethau Cymraeg o fewn cynllunio corfforaethol ac addysgol ehangach. Mae trefniadau arweinyddiaeth strategol a llywodraethu yn sicrhau bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn cael ei integreiddio mewn strwythurau partneriaeth sefydledig, gan gefnogi goruchwyliaeth ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni. Ystyrir yn briodol fod darpariaeth mynediad at y Gymraeg yn hawl i bawb, a thanlinellir hyn ym mhum cenhadaeth yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd yn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae twf parhaus Ysgol Gymraeg Tredegar a chapasiti cynyddol yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi cryfhau mynediad lleol at addysg cyfrwng Cymraeg. Mae cyfraddau cyfranogiad yn dangos gwelliant cadarnhaol o waelodlin isel, gyda chynnydd mewn cyfranogiad cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a chofrestru Blwyddyn 1. Mae trefniadau pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn aros yn gryf, ac mae cyfraddau dilyniant yn parhau i fod yn uchel. Disgrifiodd swyddogion ystod o ddulliau i gefnogi dysgwyr trwy lwybrau cyfrwng Cymraeg. Mae datblygu Y Noddfa wedi gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gwybodaeth fonitro yn dangos ymgysylltiad a chynnydd cadarnhaol tuag at dargedau unigol.

Mae'r awdurdod hefyd wedi sefydlu ystod o drefniadau dysgu proffesiynol buddiol sy'n darparu cyfle i elwa ar hyfforddiant Cymraeg, cyfleoedd sabothol, adolygiadau dwyieithrwydd a chymorth clwstwr. Mae ysgolion yn ymgorffori blaenoriaethau Cymraeg yn gynyddol mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan ategu perchnogaeth glir a chynyddol o ddatblygu'r Gymraeg.

Amlinellodd swyddogion y modd y mae cydweithio ag ysgolion, lleoliadau a phartneriaid yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr awdurdod. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ar draws lleoliadau addysg. Mae pob ysgol wedi cyflawni statws efydd, o leiaf, trwy'r Siarter Iaith/Cymraeg Campus, wedi'i gefnogi gan ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy'n cryfhau ymwybyddiaeth dysgwyr o'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a chynefin. Mae adroddiadau monitro blynyddol yn dangos bod mwyafrif mawr o gamau gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn symud ymlaen yn unol â cherrig milltir cytûn.

Meysydd i'w hystyried:

- I ba raddau y gall capasiti'r gweithlu gefnogi twf a chynaliadwyedd cynlluniedig mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg?
- Pa mor effeithiol y mae ehangu darpariaeth a chapasiti cyfrwng Cymraeg yn trosi'n gyfranogiad cynyddol ar draws pob grŵp oedran?
- I ba raddau y mae trefniadau monitro a gwerthuso yn dangos effaith fesuradwy ar gyfranogiad, dilyniant a deilliannau dysgwyr?

Diolch yn fawr am hwyluso'r ymweliad, ac edrychaf ymlaen at drafod y datblygiadau yn y ddau faes ffocws gyda chi a'ch cydweithwyr yn ystod fy ymweliadau cyswllt yn y dyfodol.

Yn gywir



Hayley Smith
AEF
Estyn

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.